**Rheolwr Rhaglen Cymunedau Maethu**

Mae Cymunedau Maethu yn ymagwedd systemau cyfan tuag at gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd maeth. Wrth ei graidd y mae model cydgynhyrchu sy'n tynnu ynghyd farnau a phrofiadau plant a phobl ifanc, gofalwyr maeth, a gwasanaethau; y gymuned faethu. Bydd allbynnau rhaglen a gydgynhyrchir yn grymuso'r gymuned hon i wella deilliannau i blant a phobl ifanc. Seilir Cymunedau Maethu ar dri maes rhaglenni: Ymchwil ac Ymgynghori, Cydgynhyrchu, a Gweithredu.

Bydd Rheolwr y Rhaglen yn gyfrifol am reoli'r rhaglen hon a ariannir drwy grant, gan weithio gyda gofalwyr maeth, gwasanaethau maethu, a phlant a phobl ifanc a gafodd brofiad gofal, i adeiladu cymuned o ymarfer ledled Cymru.

## Cyfrifoldebau ac Atebolrwydd

- Cynllunio a darparu rhaglen waith, yn cynnwys cyfleoedd cyfranogol ar gyfer gofalwyr maeth a phobl ifanc, rhwydweithiau proffesiynol, a sesiynau dysgu a datblygu.
- Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol â phartneriaid y rhaglen, yn cynnwys gofalwyr maeth, gwasanaethau maethu, arweinwyr ymchwil prifysgolion, a sefydliadau eraill yn y trydydd sector.
- Datblygu cyfleoedd cyfranogol i blant a phobl ifanc, yn cynnwys cynhyrchu Ffynnu a rheoli'r Bwrdd Cynghori Pobl Ifanc.
- Gweithredu fframweithiau gwerthuso i fonitro, adolygu a gwerthuso cynnydd ochr yn ochr â Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt.
- Monitro perfformiad cyllidebau yn barhaus, gan olrhain gwariannau gwirioneddol ochr yn ochr â symiau a gyllidebwyd.
- Cynorthwyo'r Pennaeth Gweithrediadau i ddarparu diweddariadau rheolaidd i gyllidwyr rhaglenni.
- Ymgysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid yng Nghymru a ledled y sefydliad i sicrhau y caiff dysg am brosiectau ei rhannu.

## Ein Gwerthoedd

Fel sefydliad, credwn ein bod yn gwneud gwahaniaeth i ofal maeth, a mynegir ein gwerthoedd pobl yn y gwaith a wnawn:

YMDDIRIEDIR ynom
Rydym GYDA'N GILYDD
Rydym yn HANFODOL

**Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad Hanfodol**

- Profiad helaeth o weithio o fewn y sector maethu, neu o fewn gofal cymdeithasol plant, a dealltwriaeth ddangosadwy o faterion yn ymwneud â gofal maeth a'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Profiad o reoli prosiectau a rhaglenni o fewn y trydydd sector neu'r sector cyhoeddus.
- Profiad o weithio mewn partneriaeth â thimau, sefydliadau a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyflawni newid.
- Profiad o gynllunio ac arwain rhaglen ddigwyddiadau, a gweithgareddau dysgu a datblygu.
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno ardderchog yn llafar ac yn ysgrifenedig.
- Profiad o gynllunio a blaenoriaethu gwaith i orffen cyn terfynau amser.
- Sgiliau ardderchog mewn rheoli amser a llwyth gwaith.
- Sgiliau rheoli perthnasoedd ardderchog a'r gallu i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar bob lefel, yn cynnwys penaethiaid gwasanaethau plant, rheolwyr gofal cymdeithasol, gofalwyr maeth, a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ffurfio'r tîm o amgylch y plentyn.
- Sgiliau Technoleg Gwybodaeth ardderchog, yn cynnwys rhaglenni Microsoft Office a llwyfannau cyfarfodydd rhithiol.

- Wedi cael addysg hyd at lefel Gradd neu gyfwerth.  Bydd yna ofyniad i gynnal cofrestriad â Gofal Cymdeithasol Cymru os yw hyn yn berthnasol.

**Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad Manteisiol**

- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg, yn llafar ac yn ysgrifenedig fel ei gilydd.

- Cymhwyster Lefel 4 mewn Rheoli neu Reoli Prosiect neu brofiad cyfwerth.

**Agweddau**

- Angerdd ac ymrwymiad i ddylanwadu ar newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc, a theuluoedd.
- Ymrwymiad i weithio o fewn polisïau ac arferion cyfle cyfartal ac amrywiaeth Y Rhwydwaith Maethu.

Efallai yr ystyrir ymgeiswyr heb gymhwyster perthnasol; dangoswch, os gwelwch yn dda, pam y dylem eich ystyried yn eich cais.

## Cyflog ac amodau gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Band** | Band 4 |
| **Cyflog** | £36,000 - £40,000 |
| **Gwyliau Blynyddol** | 25 diwrnod ynghyd â 5 diwrnod Rhwydwaith Maethu a Gwyliau'r Banc y flwyddyn. |
| **Cyfnod prawf** | 6 mis calendr. |
| **Oriau gwaith** | 36<br>Croesawir ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n rhan amser, fel rhan o drefniant rhannu swydd. |
| **Lleoliad** | Mae'r rôl drwy Gymru i gyd, rydym yn cynnig cyfle gweithio hybrid a chael swyddfa yng Nghaerdydd.<br><br>Mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio i'r swyddfa yng Nghaerdydd, fel y bo angen, a mynychu cyfarfodydd ledled Cymru, pan fo'n angenrheidiol.<br>. |
| **Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** | Bydd y rôl hon yn gofyn am wiriad manylach gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |
| **Pensiwn** | Dewisol. Mae cynllun pryniant arian ac opsiwn aberthu cyflog ar gael gydag AEGON:<br>Cyfraniad y gweithiwr yw 3% o gyflog blynyddol gros<br>Cyfraniad y cyflogwr yw 5% o gyflog gros. |
| **Benthyciad Tocyn Tymor** | Mae benthyciad tocyn tymor di-log ar gael i bob aelod o staff yn syth. |
| **Undeb Llafur** | Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cydnabod yr undeb llafur Unite, a gall aelodau staff ymuno os dymunant. |